WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Archwiliad o'r Cyngor Gwyrdd: adfer ac ailgylchu gwastraff i'r eithaf' – **Cyngor Sir y Fflint**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1082A2019-20

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd eu swyddi unigol, neu o ran unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod Adran 45 yn cyflwyno'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau sy'n ddisgwyliedig gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Gwilym Bury a Charlotte Owen o dan arweiniad Huw Rees.

# Cynnwys

Yn bennaf, mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod y ‘cam’ ac, yn gyffredinol, mae wedi ystyried y pum ffordd o weithio yn y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i'w gyflawni.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan un: Canfyddiadau'r archwiliad 7

Mae angen i'r Cyngor wneud mwy i gydbwyso anghenion presennol a hirdymor o fewn cyd-destun cenedlaethol a lleol 7

Mae'r Cyngor yn deall effeithiau amgylcheddol ac ariannol diffyg gweithredu ac y mae wedi ystyried sut gall ei weithredoedd atal y problemau hyn rhag gwaethygu 8

Mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae'r cam yn hybu ei amcan llesiant o gyflawni ‘Cyngor Gwyrdd’ a strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru, ond nid yw'n glir a yw'r Cyngor wedi ystyried yn weithredol sut mae'r cam yn effeithio ar ei amcanion llesiant eraill neu amcanion llesiant cyrff eraill 9

Mae'r Cyngor yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ledled gogledd Cymru i gyflawni ei amcanion ac yn cydnabod ei bod yn bosibl gweithio'n fwy agos 10

Er bod enghreifftiau cadarnhaol o gyfranogi gan randdeiliaid, gallai'r Cyngor gynnwys y cyhoedd yn gynharach a chynhyrchu asesiadau cynhwysfawr o effaith cydraddoldeb ar gyfer pob penderfyniad ar bolisi ar newidiadau mawr yn y gwasanaeth 11

Rhan dau: Ymateb a gweithredoedd y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y gwnaethpwyd yr archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyletswydd statudol i archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. bennu eu hamcanion llesiant; a

b. chymryd camau i'w bodloni.

Diffiniad y Ddeddf o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad y Cynulliad. Rhaid cyflwyno'r adroddiad cyntaf o'r fath erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd ag archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf, i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad **Myfyrio ar Flwyddyn Un – Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)**. Daeth i'r casgliad fod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, gwnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys trwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Gwnaethom weithio'n agos hefyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Fel rhan o'r gwaith rhagarweiniol yn y flwyddyn gyntaf, ystyriwyd sut y bu i gyrff cyhoeddus osod eu hamcanion llesiant, felly prif ganolbwynt y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaed gennym yn ystod mis Medi 2018 a mis Hydref 2018.

8 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein canfyddiadau o'r archwiliad 'Byddwn ni [y Cyngor] yn adfer ac yn ailgylchu gwastraff i'r eithaf', sef cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

9 Gwnaethom ofyn i'r Cyngor ym mis Hydref 2018 i ymateb i'n canfyddiadau, fel y byddai modd eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, a chawsom eu cynllun gweithredu ddechrau mis Chwefror 2019.

## Yr hyn a archwiliwyd

10 Archwiliwyd i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adfer ac ailgylchu gwastraff i'r eithaf. Mae Cynllun Cyngor Sir y Fflint ar gyfer 2017-18 yn cynnwys cam i adfer ac ailgylchu gwastraff i'r eithaf, gyda golwg ar leihau'r ddibyniaeth ar dirlenwi. Mae'r cam yn cyfrannu at flaenoriaeth welliant ‘Cyngor Gwyrdd’ Sir y Fflint.

11 Roedd y Cyngor yn bwriadu cyflawni'r cam trwy wella ei berfformiad ailgylchu, moderneiddio rhwydwaith safle ei ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, a chynyddu'r hyn sy'n cael ei ailgylchu yn y canolfannau hynny.

12 Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi gwneud sawl newid yn ei drefniadau adfer ac ailgylchu gwastraff. Mae'r newidiadau hyn wedi arwain at fwy o ailgylchu: bu cynnydd yng nghanran gwastraff y sir a gafodd ei hailddefnyddio, ei hailgylchu neu ei chompostio o 55% yn 2012-13 i 68% yn 2017-18. Yn 2017-18, gwnaeth y Cyngor roi'r gorau i gasglu gwastraff wrth ochr biniau, gan barhau â gwaith i foderneiddio rhwydwaith ei ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Ym mis Ebrill 2018, dechreuodd godi ffi am gasglu gwastraff o'r ardd. Gwnaethom adolygu'r prosesau a ddilynwyd gan y Cyngor wrth benderfynu ar y newidiadau hyn a'u gweithredu. Gwnaeth hyn ganiatáu i ni asesu i ba raddau y bu i'r Cyngor ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

13 Er mwyn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y ‘ffyrdd canlynol o weithio’:

### Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae'r tabl isod yn gosod y ‘pum ffordd o weithio’ fel y'u diffinnir yn nogfen **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr hanfodion** [1] gan Lywodraeth Cymru.

| Y pum ffordd o weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a’r angen i ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |

[1] Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr hanfodion** (2015).

| Y pum ffordd o weithio |
| --- |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu. |

14 Canfu ein harchwiliad y canlynol: **Yn bennaf, mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod y ‘cam’ ac, yn gyffredinol, mae wedi ystyried y pum ffordd o weithiau yn y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i’w gyflawni.**

# Adroddiad manwl

## Rhan un: Canfyddiadau'r archwiliad

### Mae angen i'r Cyngor wneud mwy i gydbwyso anghenion presennol a hirdymor o fewn cyd-destun cenedlaethol a lleol

#### Yr hyn yr edrychom amdano

15 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio amserlen briodol;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

16 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr ‘hirdymor’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Beth a ganfuwyd

17 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn adolygu ei ddull o adfer ac ailgylchu gwastraff yn rheolaidd i sicrhau ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei dargedau tymor canolig ef a thargedau tymor canolig Llywodraeth Cymru;
- mae'r incwm o ffioedd casglu gwastraff o'r ardd yn creu gwarged a bydd yn hybu cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth gwastraff cyffredinol; ac
- mae'r Cyngor yn cydweithio ar safle trin gwastraff gweddilliol yng ngogledd Cymru i ddatrys y broblem o ymdrin â'i wastraff gweddilliol yn yr hirdymor

18 Nodwyd y maes canlynol i'w wella:

- mae angen meddwl am y tymor hwy ac mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei strategaeth wastraff hirdymor ei hun sy'n ystyried anghenion, heriau a chyfleoedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i'w helpu i gyflawni ei nod o sicrhau dim gwastraff erbyn 2025.

[2] Gweler Atodiad 1.

## Mae'r Cyngor yn deall effeithiau amgylcheddol ac ariannol diffyg gweithredu ac mae wedi ystyried sut gall ei weithredoedd atal y problemau hyn rhag gwaethygu

### Yr hyn yr edrychom amdano

19 Edrychom am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr o'r math o broblem a natur y broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau y cyflawnir manteision ataliol; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol mae'r cam yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

20 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Beth a ganfuwyd

21 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae gan y swyddogion a'r cynghorwyr y siaradom â nhw ddealltwriaeth dda o'r angen i ailgylchu i'r eithaf i amddiffyn yr amgylchedd, lleihau'r defnydd o dirlenwi a gwneud pobl yn gyndyn o dipio'n anghyfreithlon;
- mae'r Cyngor yn gweithio gydag elusen leol i ailddefnyddio eitemau sy'n weddill fel dodrefn a ddaw i ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref;
- mae swyddogion ailgylchu yn gweithio gyda chartrefi ac ysgolion lleol i hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff gweddilliol; ac
- mae'r Cyngor yn buddsoddi yn rhwydwaith ei ganolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ac wedi caffael cerbydau adfer ailgylchu newydd i alluogi trigolion i ailgylchu mwy.

22 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- er bod y Cyngor yn monitro cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu o fewn y sir a'r gyfran sy'n cael ei hailgylchu yn rheolaidd, mae'n bosibl y bydd angen gweithredu ymhellach i leihau maint y gwastraff cyffredinol; a
- gallai'r Cyngor wella profiad ei gwsmeriaid mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref ymhellach gyda gwell cymorth gan y staff.

[3] Gweler Atodiad 1.

## Mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae'r cam yn hybu ei amcan llesiant o gyflawni 'Cyngor Gwyrdd' a strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru, ond nid yw'n glir a yw'r Cyngor wedi ystyried yn weithredol sut mae'r cam yn effeithio ar ei amcanion llesiant eraill neu amcanion llesiant cyrff eraill

### Yr hyn yr edrychom amdano

23 Edrychom am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

24 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Beth a ganfuwyd

25 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gallai'r cam gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- mae'r Cyngor wedi ystyried sut bydd eu camau i wella cyfraddau ailgylchu yn cyfrannu'n uniongyrchol at ei ganolbwynt ar reolaeth amgylcheddol fel rhan o'i amcan o sicrhau Cyngor Gwyrdd; ac
- mae'r Cyngor wedi ystyried sut mae cyflawni'r cam yn effeithio ar strategaeth Dim Gwastraff Llywodraeth Cymru a'i weledigaeth o Gymru fwy cynaliadwy.

26 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- dylai'r Cyngor roi mwy o ystyriaeth i'r ffordd y gall integreiddio ei amcanion llesiant ac asesu eu heffaith ar amcanion llesiant cyrff eraill.

[4] Gweler Atodiad 1.

## Mae'r Cyngor yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ledled gogledd Cymru i gyflawni ei amcanion ac yn cydnabod ei bod yn bosibl gweithio'n fwy agos

### Yr hyn yr edrychom amdano

27 Edrychom am dystiolaeth fod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu i helpu corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithio'n helpu ef neu ei randdeiliaid i gyflawni eu hamcanion llesiant.

28 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cydweithio’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Beth a ganfuwyd

29 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn ystyried sut y gallai gydweithio'n fwy gyda chynghorau eraill yng ngogledd Cymru ar ddull rhanbarthol o fynd i'r afael â gwastraff ac y mae hefyd yn ystyried partneriaethau posibl â chwmnïau lleol.
- mae enghreifftiau cadarnhaol o'r Cyngor yn cydweithio ag eraill i gyflawni'r cam, er enghraifft:
  - rhannu costau cyfleusterau trin gwastraff ar gyfer gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol;
  - partneriaeth ag elusen leol i ailddefnyddio dodrefn gweddilliol ac ati; ac
- mae'r Cyngor yn gweithio gydag eraill i'w helpu i gyflawni'r gweithredoedd sy'n cyfrannu at y cam ac i greu'r effaith ehangaf posibl. Ymhlith y partneriaid mae WRAP[6] a'r farchnad wastraff.

30 Ni nodwyd dim meysydd i'w gwella yn y maes hwn.

[5] Gweler Atodiad 1.

[6] Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau – http://www.wrap.org.uk/

## Er bod enghreifftiau cadarnhaol o gyfranogi gan randdeiliaid, gallai'r Cyngor elwa o gynnwys y cyhoedd yn gynharach a chynhyrchu asesiadau cynhwysfawr o effaith cydraddoldeb ar gyfer pob penderfyniad polisi ar newidiadau mawr yn y gwasanaeth

### Yr hyn yr edrychom amdano

31 Edrychom am dystiolaeth fod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen iddo ei gynnwys yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys y rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol yn y broses o ddylunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r cyfranogiad i lywio'r ffordd y caiff y cam hwn ei ddatblygu a'i gyflawni; a
- cheisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gyfranogi.

32 Hefyd, cafodd ein harchwiliad ei lywio gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cyfranogiad’ yr ydym wedi'u nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[7]

### Beth a ganfuwyd

33 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n dda â chartrefi ac ysgolion i addysgu dinasyddion am bwysigrwydd ailgylchu; a
- phan fydd y Cyngor yn cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddylunio a chyflawni newidiadau yn ei wasanaeth, megis newidiadau yn y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, mae'n gwneud hyn yn dda a gall ddangos y bu i'r rhanddeiliaid helpu i lywio'r cynlluniau terfynol.

34 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- weithiau, gall y Cyngor elwa o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynharach yn y broses. Er enghraifft, trwy gynnwys rhanddeiliaid yng nghamau cyntaf dylunio proses y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, gallai’r Cyngor fod wedi osgoi cyhoeddusrwydd negyddol a chytuno ar ddull terfynol yn gyflymach ac yn haws.
- mae angen defnyddio dull mwy cyson o weithio wrth gwblhau asesiadau cynhwysfawr o effaith cydraddoldeb a sicrhau bod modd eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau.
- er bod y cynghorwyr y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus fod swyddogion yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nid yw hyn yn cael ei ddangos yn glir yn y gwerthusiadau a'r adroddiadau y maent yn eu derbyn.

[7] Gweler Atodiad 1.

# Rhan dau: Ymateb a gweithredoedd y Cyngor

35 Yn dilyn ein gwaith maes, cyflwynwyd ein canfyddiadau i uwch-swyddogion y Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2018. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac, o ganlyniad i'r trafodaethau yn y gweithdy a rhagor o fyfyrio ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol dan themâu penodol. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei gynllun gweithredu, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn ein canfyddiadau.

Arddangosyn 2: Gweithredoedd y Cyngor

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Ymateb i'r weithred |
|---|---|---|
| **Hirdymor** | Mae angen meddwl am y tymor hwy ac mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei anghenion, heriau a chyfleoedd rhanbarthol a lleol ei hun i'w helpu i gyflawni ei nod o sicrhau dim gwastraff erbyn 2050. | Caiff hyn ei wreiddio yn strategaeth wastraff pum mlynedd y Cyngor. |
| **Atal** | Er bod y Cyngor yn monitro cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu o fewn y sir a'r gyfran sy'n cael ei hailgylchu yn rheolaidd, mae'n bosibl y bydd angen gweithredu i leihau maint y gwastraff cyffredinol. | Caiff hyn ei wreiddio yn strategaeth wastraff pum mlynedd y Cyngor. |
| | Gwella profiad cwsmeriaid mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref gyda gwell cymorth gan y staff. | Byddwn yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar ei safbwynt ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn ein canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. |
| **Integreiddio** | Dylai'r Cyngor roi mwy o ystyriaeth i'r ffordd y gall integreiddio ei amcanion llesiant ac asesu ei effaith ar amcanion llesiant cyrff eraill. | Bydd y Cyngor yn ailosod ei amcanion llesiant fel rhan o osod Cynllun y Cyngor, a fydd yn cynnwys nid yn unig y gwaith dan arweiniad y Cyngor ond hefyd ystyriaeth o'r gwaith mewn partneriaeth a'i effaith ar amcanion llesiant cyrff eraill. |

| Egwyddorion datblygu cynaliadwy | Cyfleoedd i wella | Ymateb i'r weithred |
|---|---|---|
| **Cyfranogiad** | Weithiau, gall y Cyngor elwa o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynharach yn y broses. Er enghraifft, trwy gynnwys rhanddeiliaid yng nghamau cyntaf dylunio proses y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, gallai’r Cyngor fod wedi osgoi cyhoeddusrwydd negyddol a chytuno ar ddull terfynol yn gyflymach ac yn haws. | Byddwn yn adolygu lle rydym wedi llwyddo ar ymarferion cyfranogiad eraill i roi'r gwersi a ddysgwyd ar waith wrth gynnal adolygiadau o bolisïau yn y dyfodol, megis trafnidiaeth ôl-16. |
| | Mae angen defnyddio dull mwy cyson o weithio i gwblhau asesiadau cynhwysfawr o effaith cydraddoldeb a sicrhau bod modd eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau. | Bydd y gwaith a wnaed ar ddatblygu dull yr asesiadau o effaith cydraddoldeb yn asesiad o effaith wedi'i integreiddio'n llawn (gan gynnwys nodau llesiant a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy) yn cael ei lansio yn y flwyddyn newydd i'w ddefnyddio mewn pob maes adolygu polisïau. |
| | Er bod yr aelodau y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus fod y swyddogion yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nid yw hyn yn cael ei ddangos yn glir yn yr adroddiadau yr ydym yn eu derbyn. | Mae gwaith i wreiddio'r meddylfryd y tu ôl i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn adroddiadau i'r aelodau wrthi'n cael ei gwblhau. |
| **Trefniadau corfforaethol** | Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn ystyried y pum ffordd o weithio yn y camau mae’n eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant. | Gwneir hwn fel rhan o ailosod amcanion llesiant y Cyngor. |
| | Mae angen i'r Cyngor ystyried sut i gynnwys cylch dysgu i'w helpu i ymgorffori'r pum ffordd o weithio ymhellach wrth osod a chyflawni ei amcanion llesiant. | Bydd y gwaith o osod a chyflawni'r gyfres ddiwygiedig o amcanion llesiant yn cael ei integreiddio'n llawn â'r pum ffordd o weithio. |

# Atodiad 1

## Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

Mae'r tabl isod yn gosod 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u nodi ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i lywio ein hasesiadau o'r raddfa y gallai cyrff fod yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i greu casgliad, yn hytrach na 'phenderfynyddion' o'r raddfa y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: Dangosyddion cadarnhaol o'r pum ffordd o weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd hirdymor o weithio yn ei chyfanrwydd? |
|---|
| • Mae dealltwriaeth glir o ystyr 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf<br>• Mae'r corff wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan/ion llesiant a chyfrannu at ei weledigaeth hirdymor<br>• Mae wedi dylunio'r cam i ddwyn manteision byrdymor neu dymor canolig, sy'n cydbwyso â'r effaith dros yr hirdymor (o fewn cyd-destun y prosiect)<br>• Mae wedi dylunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o'r angen a'r pwysau presennol, a'r rheiny yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol<br>• O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a chyfleoedd presennol a'r rheiny yn y dyfodol<br>• Mae adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau manteision hirdymor yn ogystal â byrdymor<br>• Mae canolbwynt ar gyflawni canlyniadau, wrth nodi cerrig milltir / camau cynnydd pan fydd canlyniadau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor<br>• Mae'n agored i ffyrdd newydd o gyflawni pethau a allai helpu i ddwyn manteision yn yr hirdymor<br>• Mae'n rhoi gwerth ar ddeallusrwydd ac yn mabwysiadu dulliau o weithio ar sail tystiolaeth |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd ataliol o weithio yn ei chyfanrwydd?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall gwreiddiau problemau fel bod modd trechu cylchoedd negyddol a heriau rhyng-genedlaethol<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt system gyfan, gan gydnabod a rhoi gwerth ar y manteision hirdymor y gallant eu cyflawni i bobl ac i lefydd<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i weithredoedd ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a gwell defnydd o adnoddau dros yr hirdymor, hyd yn oed pan allai hyn gyfyngu ar y gallu i fodloni rhywfaint o anghenion byrdymor<br>• Mae trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth gweithredoedd ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau i geisio gwella canlyniadau a'r defnydd o adnoddau |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithio mewn ffordd 'integredig'? |
|---|
| • Unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant<br>• Unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn ceisio cyfleoedd yn rhagweithiol i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Mae hyn yn digwydd yn eu gwaith â chyrff cyhoeddus eraill hefyd<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y ddibyniaeth ar draws y sefydliad ar gyflawni'r uchelgais a'r amcanion<br>• Mae diwylliant agored lle caiff gwybodaeth ei rhannu<br>• Dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus<br>• Unigolion yn rhagweithiol wrth weithio ar draws ffiniau'r sefydliad i gynyddu eu cyfraniad i'r eithaf ar draws y nodau llesiant ac i leihau effeithiau negyddol<br>• Mae'r llywodraethiant, y strwythurau a'r prosesau, yn ogystal ag ymddygiad, yn hybu hyn |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar lefydd, cymunedau a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion ei bartneriaid yn ogystal â'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i sbarduno gweithgareddau ar y cyd<br>• Mae gan y corff gydberthnasau cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar y cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio ar y cyd, lle bo'n briodol |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy y mae angen ei gynnwys a pham<br>• Myfyrio ar ba mor dda y caiff yr anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r bobl hynny eu deall ar hyn o bryd<br>• Gweithio'n gydweithredol a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau<br>• Sicrhau y caiff amrywiaeth lawn y rhanddeiliaid ei chynrychioli a bod modd iddynt gymryd rhan<br>• Bod â pherthnasau aeddfed a ffyddlon â'i randdeiliaid, lle mae deialog barhaus a chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw<br>• Sicrhau bod y rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales